Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cysgod Y Coed Cyf**

**Cartref Preswyl Cysgod Y Coed**
**Llanilar**
**Aberystwyth**
**SY23 4NR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/08/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cysgod Y Coed Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cysgod Y Coed Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Ebrill 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gânt. Cânt eu cefnogi gan dîm o staff cyfeillgar sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, y maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Wrth drafod y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"It doesn't feel like work, it feels like we are coming into somebodies' home".*

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn gyfforddus, gydag ystafelloedd cymunedol a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda er mwyn i'r bobl allu ymlacio a rhyngweithio â'i gilydd.

Yr Unigolyn Cyfrifol yw rheolwr y gwasanaeth hefyd ac mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn ei adnabod yn dda. Mae'r wybodaeth o adroddiadau'r Unigolyn Cyfrifol a'r archwiliadau mewnol yn cael eu defnyddio i lywio ei adolygiadau o ansawdd y gofal a gynhelir bob chwe mis.

## Llesiant

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth unigol. Mae'r rheolwr yn cydweithio â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i fod mor iach â phosibl. Caiff y bobl eu parchu a'u cefnogi i wneud y pethau sydd o bwys iddynt, fel cymdeithasu â'i gilydd, cyfarfod â ffrindiau a theulu ac ymweld â'u cymuned leol. Mae'r rhyngweithio â'i gilydd a'r tîm o staff yn gyfeillgar ac yn gartrefol, dywedodd unigolyn wrthym *“This place is excellent”.* Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n cynnig 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, a gallant gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu gan fod prosesau recriwtio a hyfforddiant yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a’r cymorth cywir. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau sefydlu trwyadl a chyfleoedd datblygu parhaus ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn diogelu'r bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn y rheolwr.

Mae'r adeilad yn gartrefol ac mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd eu hunain fel y mynnant. Mae'r ardaloedd cymunedol yn gyfforddus a chaiff yr ardaloedd gwahanol eu defnyddio'n aml gan y bobl i wneud yr hyn y maent yn ei fwynhau, er enghraifft cymdeithasu â'i gilydd, gwylio'r teledu a darllen. Mae'r tiroedd yn hygyrch a gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt.

Mae gan y bobl lais o ran sut y caiff y gwasanaeth ei redeg gan eu bod yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol/Rheolwr yn dda ac yn gallu cael sgyrsiau agored. Caiff y bobl eu cynnwys yn y rhaglenni sicrhau ansawdd. Mae'r prosesau llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella ar ôl ymgynghori â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn canmol y gofal a'r cymorth a gânt yn fawr. Gwelsom lawer o ryngweithio cyfeillgar rhwng y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn eu trin fel unigolion, yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau. Dywedodd unigolyn wrthym am y gwelliannau sylweddol a wnaed i'w hiechyd cyffredinol ers symud i'r gwasanaeth a dywedodd *“This place has helped me get back on my feet, I’m so much better since moving here”.* Mae'r gweithwyr gofal yn parchu'r bobl fel unigolion, yn cymryd amser i ddod i'w hadnabod ac yn annog annibyniaeth. Dywedodd gweithiwr wrthym *“I love this job and going home, knowing that I’ve helped people makes me feel proud”.* Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn gadarnhaol iawn am y gofal a'r cymorth a dywedodd un ohonynt wrthym *“It’s like home from home here and they are all very good with her, the girls (care workers) are excellent”.*

Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chynnal y cynlluniau personol. Mae'r rheolwr yn adolygu cynlluniau â'r bobl bob mis i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Mae'r ddogfennaeth yn dangos tystiolaeth dda bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys yn gadarnhaol i wella bywydau'r bobl. Mae'r nodiadau dyddiol yn cofnodi’r gofal a’r cymorth a gwblhawyd, y gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt, a disgrifiad byr o’r diwrnod o safbwynt y person.

Mae'r bobl yn mwynhau darllen papurau newydd a llyfrau, gwylio'r teledu a rhyngweithio â'i gilydd a gyda'r tîm o staff. Cynhelir gweithgareddau a gynlluniwyd yn y gwasanaeth hefyd megis trefnu blodau, crefft a diddanwyr allanol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i dreulio amser gyda'u teulu a'u ffrindiau yn ogystal ag ymweld â'u cymuned leol.

Mae lefelau staffio digonol ar waith er mwyn diwallu anghenion y bobl a gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol a phwyllog yn ystod yr arolygiad. Mae llawer o'r staff yn lleol i'r ardal ac yn cael trafodaethau â'r bobl am faterion lleol, gwelsom hefyd lawer o sgyrsiau'n mynd rhagddynt yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy gydol y dydd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn gyfforddus ac mewn cyflwr da. Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff y gwasanaeth fel 'home from home'. Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser gyda'i gilydd yn yr ardaloedd cymunedol gwahanol yn sgwrsio â'i gilydd, â'u hymwelwyr a gyda'r tîm o staff. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd â ffotograffau, lluniau a dodrefn eu hunain. Mae'r tiroedd yn hygyrch ac mae'r bobl yn eu defnyddio'n aml i ymlacio ac i fwynhau'r awyr iach.

Mae gan y darparwr raglen ar gyfer gwaith uwchraddio wedi'i gynllunio a gwaith uwchraddio er mwyn sicrhau y caiff y cartref ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn creu awyrgylch croesawgar i'r bobl fyw ynddo. Mae sawl ystafell wely wedi cael ei haddurno ac maent yn edrych yn olau ac yn ffres. Cawsom wybod bod camau yn cael eu cymryd yn gyflym mewn ymateb i unrhyw broblemau'n ymwneud â'r adeilad a bod gwaith atgyweirio yn cael ei gwblhau'n brydlon.

Cwblheir archwiliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo yn gyson. Mae'r cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol. Mae'r adeilad yn cydymffurfio â'r rheoliadau tân ac mae'r gwelliannau roedd angen eu gwneud o'r archwiliad diogelwch tân blaenorol wedi cael eu datrys. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra i'r unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o 5 i'r gegin ac mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o brydau cartref wedi'u paratoi'n ffres. Mae'r bobl yn mwynhau bwyta yn yr ystafell fwyta a gwnaethant ddweud wrthym *"The food is lovely, very nice"* and *"The food is marvellous, it's great".*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau da ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Yr Unigolyn Cyfrifol hefyd yw rheolwr y cartref, ac mae'n goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae'n cael barn y bobl a'i weithwyr gofal am y gwasanaeth bob tri mis. caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiad. Gwelsom adborth gan y bobl a'r staff gofal mewn arolygon, a defnyddir y data hwn mewn adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.
Mae'r Unigolyn Cyfrifol/Rheolwr yn gweithio yn y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac yn adnabod y bobl yn dda. Gwelsom lawer o ryngweithio cyfeillgar ac agored rhyngddynt hwy a'r bobl. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"[RI/Manager] is great, always here and easy to talk to".* Mae cynrychiolwyr y bobl hefyd yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth yn y gwasanaeth, dywedodd un ohonynt wrthym *"[RI/Manager] is always available if I need her".* Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod yr Unigolyn Cyfrifol/Rheolwr yn barod i helpu ac yn gefnogol a gwnaethant ddisgrifio polisi drws agored. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym *"I can go and see [RI/Manager] for anything; she makes sure she's available and listens"* a *"If I have an issue I can go to the office, they are so helpful".*

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ond eu bod yn gwerthfawrogi cymorth yr Unigolyn Cyfrifol/Rheolwr sydd ar gael o ddydd i ddydd. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"Supervision is good, they check on how I am and my well-being, I feel comfortable to raise anything"*. Dangosodd trafodaethau â'r staff bod dealltwriaetg dda o'r trefniadau diogelu. Mae gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisïau allweddol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, gwirio'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae staff newydd yn cael sesiynau sefydlu cynhwysfawr a hyfforddiant parhaus gorfodol, ac sy'n benodol i'r person, er mwyn diwallu anghenion y bobl. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym "I like to stay up to date with training and I can do different courses to support people with different needs". Mae'r rheolwr yn cefnogi'r staff i gwblhau 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ac i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae llawer o'r gweithwyr gofal yn lleol ac wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r bobl ac yn deall eu hanghenion a'u dewisiadau. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *"Things are very settled here, they know her well and I can't fault them".*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 7 | Nid yw'r Datganiad o Ddiben yn gyfredol ac nid yw'n adlewyrchu'r newidiadau i'r strwythur rheoli yn y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/09/2023